PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

1. Cyflwyniad

1.1 Un o chwe phwyllgor pwnc y Cynulliad yw'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar sut y maent yn llwyddo i gyflawni eu blaen-raglen waith.

1.2 Kirsty Williams sydd yn cadeirio'r Pwyllgor. Yr aelodau eraill yw Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad, Brian Gibbons, Lynne Neagle, Gwenda Thomas, David Lloyd, Geraint Davies, Helen Mary Jones, David Melding a Peter Rogers. Daeth Peter Rogers i gymryd lle Nicholas Bourne ym mis Medi 1999.

1.3 Erbyn diwedd mis Chwefror, yr oedd y Pwyllgor wedi cyfarfod 17 o weithiau.

2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

2.1 Mae gan y Pwyllgor bortffolio sylweddol sy'n cynnwys yr ystod llawn o faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol y mae Ysgrifennydd y Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Mae'r materion hyn yn allweddol o safbwynt lles pobl Cymru ac mae proffil cyhoeddus uchel i waith y Pwyllgor.

3. Dull o Weithio

3.1 Mae pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor wedi'u cynnal yn gyhoeddus. O'r cychwyn cyntaf, yr oedd y pwyllgor yn awyddus i gydweithio â'r asiantaethau statudol a gwirfoddol a oedd yn gweithio yn y meysydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.2 Gwahoddwyd nifer o gyrff a mudiadau allweddol i gyfarfod â'r pwyllgor i drafod eu barn ar y sialensau a'r materion pwysig sy'n rhaid eu datrys yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf, a'r prif flaenoriaethau y dylai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hwy yn ystod y deuddeg mis nesaf. Yr oedd y cyrff a'r mudiadau hyn yn cynnwys:

Cydffederasiwn yr NHS, Cymru;

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol;

Cymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned;

Undebau a Chyrff Proffesiynol;

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; a

Cymdeithas Deintyddion Prydain (Cymru), a Phwyllgor Deintyddol Cymru

3.3 Bu'r Pwyllgor hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd a Phrif Weithredwr y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, ac â Chadeirydd a Chyfarwyddwr y Comisiwn er Gwella Iechyd.

3.4 Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i barhau i weithio law yn llaw â'r sefydliadau hyn i sicrhau bod y gwasanaethau gorau posibl ar gael i bobl Cymru.

4. Blaenoriaethau'r Pwyllgor

4.1 Nododd y Pwyllgor y blaenoriaethau canlynol wrth ddrafftio ei raglen waith gyntaf:

- **Gwaith di-fwlch** - prif amcan rhaglen waith y pwyllgor yw integreiddio iechyd, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ei flaen-raglen waith, felly, bydd yn canolbwyntio ar Bapurau Gwyn yr NHS a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a "Gwell Iechyd - Gwell Cymru".

- **Gwella iechyd a delio ag anghydraddoldeb** - os am ddelio â'r "darlun cyflawn" o ddelio ag anghydraddoldebau iechyd ac anfanteision afiechyd, bydd angen i'r pwyllgor archwilio'i holl drafodaethau a hefyd archwilio polisi ehangach y Cynulliad ar gyfer hyrwyddo a gwella iechyd.

- **Gofal sylfaenol** - aildrefnu blaenoriaethau'r NHS ar ffurf strategaeth ar gyfer gofal sylfaenol (iechyd a chymdeithasol), gan gynnwys ei gyfraniad at ddieithrwch cymdeithasol a datblygiadau cymunedol.

- **Ansawdd/Rheoleiddio/Arolygu** - mae angen ystyried y gofynion (statudol neu ddewisol) o ran gwella ansawdd, gwerth am arian, darparu gwasanaeth "ar sail tystiolaeth", a rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau i bobl hawdd eu niweidio wrth ddatblygu pob polisi ac wrth ystyried y gyllideb.

- **Y gyllideb** - rhoi ystyriaeth gynnar i'r arolwg 'Cloriannu'r NHS'; i ddatblygu blaenoriaethau gwario ar draws yr NHS ac i Wasanaethau Cymdeithasol.

- **Plant** - sesiynau ar Gomisiynydd Plant annibynnol a gweithredu ar adroddiad tribiwnlys Cam-drin Plant Gogledd Cymru; cynlluniau gwasanaeth plant; a datblygu strategaeth iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc.

- **Materion brys sy'n ymwneud â pholisi a gweithredu** - yn arbennig rhestri/amseroedd aros, mynediadau brys, rhyddhau cleifion o'r ysbyty, hyblygrwydd gofal iechyd/cymdeithasol, penodiadau cyhoeddus a materion yn ymwneud â'r Flwyddyn 2000.

- **Mynediad a Phartneriaeth** - Mae'r pwyllgor yn sicrhau ei fod ar gael i grwpiau sydd â diddordeb, partneriaid a chyrff fel ei fod yn agored i wybodaeth, syniadau a dylanwad.

5. Cynnydd

5.1 Mae cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc wedi eu pennu yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

"9.7. Bydd pob pwyllgor pwnc

(i) yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad

perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;

(ii) yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a

(iii) yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8. O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

(i) yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22;

(ii) yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;

(iii) yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cynion);

(iv) yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21; a

(v) yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

5.2 Hyd yma, mae'r Pwyllgor wedi trafod amrywiaeth eang o faterion sy'n adlewyrchu ei holl bortffolio. Mae'r gwaith hwn, yn bennaf, wedi cyfrannu at ddatblygu polisïau a monitro cynnydd mewn meysydd pwysig. Mae'n dystiolaeth o'r ffordd y mae'n gweithio gyda'r gwahanol sectorau i gyflawni amcanion cyffredin, sef gwasanaethau gwell a mwy cost effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion y cyhoedd. Ceir manylion am y prif waith a wnaed yn Atodiad 1.

<u>Comisiynydd Plant</u>

5.3 Un o'r darnau mwyaf arwyddocaol o waith a wnaed gan y Pwyllgor yw'r cynnig am Gomisiynnydd Plant Annibynnol. Yn ogystal ag ymgymryd ag ymgynghori ysgrifenedig ym mis Hydref, mae'r pwyllgor wedi cael sylwadau llafar oddi wrth:

Plant yng Nghymru;

NSPCC Cymru;

Coleg Brenhinol Pediatryddion ac Iechyd Plant;

Cymdeithas Ymarferwyr Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd;

Ombwdsmon Gweinyddu Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd

Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol Cymru;

Iechyd Morgannwg Health;

Ymddiriedolaeth NHS y Gogledd-orllewin;

Lleisiau mewn Gofal;

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

Cymdeithas Llywodraeth leol Cymru; a

Barnardos

Ym mis Ionawr bu grp o aelodau yn ymweld â Chanolfan Deulu Sandfields ym Mhort Talbot i drafod cynigion gyda gweithwyr rheng flaen a chleientiaid, ac mae'r aelodau hefyd wedi bod yn siarad â phobl yn eu hetholaeth hwy.

Adroddiad Waterhouse

5.4 Mae'r Pwyllgor wedi cymryd y llyw yn ymateb Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Adroddiad Waterhouse. Yn dilyn datganiad gan Ysgrifennydd y Cynulliad, cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth lawn a chymeradwywyd y cynllun gweithredu. Daeth y pwyllgor hefyd i'r casgliad:

- y dylid monitro'r modd y mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio adnoddau a neilltuwyd gan y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau plant. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr angen i gadw llygad ar lefel yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol.

- Cytunwyd mai'r blaenoriaethau fyddai:

    hyfforddi a datblygu staff ar bob lefel;

    gweithredu argymhelliad rhif 9 yn fuan; a

    chryfhau argymhelliad 11 trwy gwtogi ar y cyfnod hwyaf a bennwyd ar gyfer ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol yn y maes;

    sicrhau bod gwaith rhyng-asiantaeth yn cael ei wneud yn effeithiol.

5.5 Wrth drafod cyllideb 2000-2001, penderfynodd y Pwyllgor trwy fwyafrif o chwech i bedwar i hysbysu Ysgrifennydd y Cynulliad bod y gyllideb ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn annigonol; a'i hysbysu am ofyn am gyllid ychwanegol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yng nghyfarfod nesaf y Cabinet.

5.6 Cydnabu'r Pwyllgor bod arian ychwanegol yn y gyllideb er na ellir cwrdd yn llawn â holl flaenoriaethau'r Pwyllgor.

5.7 Mae blaenoriaethau cyllidebol y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol:

Ymchwilio i'r manteision a'r gost o ymestyn y categorïau o bobl sydd â hawl i brofion llygaid am ddim.

5.8 Bydd cyflwyniadau ysgrifenedig am y mater yn cael eu ystyried, ac ar 2 Mawrth daeth cyflwyniadau llafar i law oddi wrth:

Tîm Polisi Sgrinio Cenedlaethol;

Ffederasiwn yr Optegwyr Offthalmig a Fferyllol

Cymdeithas yr Optometryddion, Cyngor Cymru

Pwyllgor Optometrig Cymru;

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion

Cyngor Cymru i'r Dellion; ac

Awdurdodau Iechyd Cymru.

Grp Gorchwyl a Gorffen ar Ragnodi

5.9 Bu'r Pwyllgor yn allweddol o ran sefydlu grp gorchwyl a gorffen i edrych ar arferion rhagnodi. Roedd hyn yn ffrwyth yr ystyriaeth a roddodd y pwyllgor i'r adroddiad Cloriannu'r NHS.

Strategaeth Gofalwyr

5.10 Roedd pob plaid yn gytûn bod mynd i'r afael ag anghenion gofalwyr o ran cynhaliaeth yn flaenoriaeth, a bod gan bob pwyllgor pwnc ddiddordeb yn hyn o beth. Ym mis Hydref, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad oddi wrth Gynghrair Gofalwyr Cymru, a fu'n allweddol o ran llywio'i gyfraniad i ddatblygu Strategaeth Gofalwyr a'r cynigion ar gyfer trefnu cyllid ar gyfer gofalwyr yng Nghymru. Cafodd y gefnogaeth ar gyfer Strategaeth Gofalwyr fel prif flaenoriaeth ei adlewyrchu ym mlaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer cynllunio'r gyllideb.

Grp Amseroedd Aros a Blaenoriaethau Clinigol

5.11 Bu'r Pwyllgor hefyd yn allweddol o ran sefydlu gweithgor ar amseroedd aros a blaenoriaethau clinigol, yn dilyn y gymeradwyaeth a roddwyd gan bob plaid i symud tuag at ganolbwyntio ar reoli amseroedd aros a blaenoriaethau clinigol.

Adolygu Fformwla

5.12 Mae hefyd wedi symbylu adolygiad o'r dull mwyaf priodol o ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r ystod lawn o wasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol, eilaidd a thrydyddol i bobl Cymru er mwyn sicrhau bod pawb fel ei gilydd yn medru cael gwasanaethau iechyd o safon briodol yn unol â'r anghenion gofal.

Strategaeth Gofal Sylfaenol

5.13 Cafodd y Pwyllgor adroddiad oddi wrth aelodau gweithgor o'r gwasanaeth iechyd a fu'n ymwneud â llunio'r strategaeth, a thrafodwyd sut y gellid bwrw ymlaen â'r strategaeth.

6. Rhaglen y Dyfodol

6.1 Ddechrau'r flwyddyn, bu'r Cadeirydd, Ysgrifennydd y Cynulliad a'r llefarydd ar ran y pleidiau gwleidyddol eraill yn adolygu'r ffordd y mae'r Pwyllgor yn gweithio. Daethant i'r casgliad bod y Pwyllgor, yn ystod ei chwe mis cyntaf, wedi llwyddo i gynnal trafodaethau buddiol â'r prif rai sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gofal. Bu'n ymdrin hefyd â nifer o faterion pwysig, gan lwyddo i ddod i gytundeb bras mewn nifer o feysydd polisi pwysig. Yr oedd y grp yn gytûn mai'r ffordd ymlaen oedd i'r Pwyllgor ganolbwyntio ar faterion strategol allweddol ac ar ei rôl o ran archwilio. Byddai ei flaen-raglen waith o fis Mai 2000 yn adlewyrchu'r dull hwn o weithio ac yn ystyried y materion a oedd wedi'u nodi yn y drafft "Gwell Cymru" fel rhai y dylai'r Cynulliad weithredu arnynt yn gyflym.

6.2 Mae'r Pwyllgor yn bwriadu archwilio perfformiad dau awdurdod iechyd a dwy ymddiriedolaeth NHS rhwng Mai 2000 a Rhagfyr 2001.

6.3 Bydd y Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau gan y gweithgorau ar amseroedd aros/rhestri aros ac ar arferion rhagnodi ac yn ystyried eu casgliadau.

6.4 Amagaeir y flaen-raglen waith ddrafft yn Atodiad 2.

Kirsty Williams

Cadeirydd

28 March 2000

ATODIAD 1

	Datblygu Polisi	**Archwilio**	**Monitro**

Gwaith di-fwlch	Ym mis Medi, bu'r Pwyllgor yn trafod cynigion ar gyfer gweithredu'r hyblygrwydd ychwanegol rhwng awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol sydd wedi'i ganiatáu gan Ddeddf Iechyd 1999. Mae gwaith di-fwlch yn effeithio ar nifer o faterion eraill sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor, megis sicrhau bod mwy o welyau ar gael mewn ysbytai a'r Strategaeth Gofalwyr. Bu'r Pwyllgor yn trafod y cynigion ar gyfer Strategaeth Gofalwyr Genedlaethol ym mis Tachwedd, yn dilyn trafodaeth gynharach â Chynghrair Gofalwyr Cymru. Ystyriwyd argymhellion y Pwyllgor wrth ddrafftio'r strategaeth. Bydd y strategaeth yn cael ei chyhoeddi er mwyn ymgynghori arni yn y Gwanwyn ac mae'r pwyllgorau pwnc eraill yn ymwybodol o'r mater hwn.		
Gwella Iechyd a Delio ag Anghydraddoldeb	Yr oedd yn bosibl i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau ar nifer o strategaethau pwysig, a dylanwadu arnynt, megis Strategaeth Gorfforaethol yr NHS; y Strategaeth Iechyd Rywiol; Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion a'r Strategaeth Iechyd Plant a Phobl Ifanc. Aeth y Pwyllgor ati i ymgynghori ar y gost o ymestyn y grwpiau o bobl sydd â hawl i gael profion llygaid am ddim, ac ar fanteision hynny, ac mae wedi trafod y mater hwn gyda'r sefydliadau priodol. Bydd yn trafod ei gasgliadau a'i ganlyniadau ym mis Mawrth.		Gwnaed cyfraniad gwerthfawr gan y pwyllgor wrth sefydlu tasgluoedd i ystyried y materion cysylltiedig, megis amseroedd aros am driniaeth ysbyty a phrinder gwelyau mewn ysbytai yn ystod cyfnodau pan oedd mwy a mwy o alw am dderbyn cleifion ar frys. Bydd y pwyllgor yn monitro cynnydd y grwpiau hyn ac yn trafod eu hargymhellion.
Gofal sylfaenol	Ym mis Hydref bu'r Pwyllgor yn trafod canlyniad yr ymgynghori cynnar ar y cynigion ar gyfer y Strategaeth Gofal Sylfaenol. Bydd y Pwyllgor yn monitro cynnydd wrth ddatblygu'r strategaeth a bydd yn dymuno cael ei gynnwys mewn trafodaethau pellach wrth i'r strategaeth ddatblygu.		

Ansawdd/Rheoleiddio/ Arolygu	Mae hyn yn sylfaenol i'r rhan fwyaf o waith y Pwyllgor. Yn fwyaf arbennig, cyflwynwyd adroddiad i'r Llywodraeth yn San Steffan o farn y Pwyllgor ar strwythur a chwmpas y trefniadau rheoleiddio newydd ar gyfer safonau gofal, ac ar sefydlu'r Comisiwn Gofal Sylfaenol yng Nghymru, ac ystyriwyd y farn hon wrth ddrafftio deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r Mesur ger bron y Senedd ar hyn o bryd.		
Cyllidebau	Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n edrych ar y fformwla ar gyfer dyrannu cyllid refeniw dewisol i Ysbytai a Chymunedau a Gwasanaethau Iechyd y Teulu a Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol sydd â swm cyfyngedig o arian. Caiff hyn ei wneud gan weithgor arbenigol a grp llywio â chadeirydd annibynnol, a bydd y pedair plaid wleidyddol yn cael eu cynrychioli.	Arweiniodd trafodaeth y pwyllgor ar 'Gloriannu'r NHS' a chynlluniau'r gyllideb ar gyfer 2000-2001 at sefydlu tasglu i archwilio arferion rhagnodi yng Nghymru, am fod pryder ynghylch y bil cyffuriau.	
Plant	Un o brif flaenoriaethau'r Pwyllgor yw sefydlu Comsiynydd Plant Annibynnol cyn gynted â phosibl. Mae pob plaid wleidyddol wedi ymrwymo i'r egwyddor hwn. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda rhai o'r cyrff a'r mudiadau gwirfoddol sy'n ymwneud â Lles Plant yng Nghymru ac mae wedi ymgynghori â'r cyhoedd. Bydd y Pwyllgor yn derbyn mwy o gyflwyniadau llafar ym mis Mawrth ac mae'n gobeithio adrodd ei gasgliadau a'i argymhellion yn ôl i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl wedi hynny. Yr oedd yn bosibl i'r Cynulliad gyflwyno sylwadau ar ganlyniad yr ymgynghori ar y ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn rhoi cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Trosglwyddwyd argymhellion y Pwyllgor i'r Llywodraeth yn San Steffan gan Ysgrifennydd y Cynulliad a thrwy Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'r Mesur ger bron y Senedd ar hyn o bryd.		

Materion Polisi a Gweithredol Brys		Mae adroddiadau misol Ysgrifennydd y Cynulliad yn golygu bod aelodau bob amser yn ymwybodol o'r newyddion diweddaraf. Mae'r Ysgrifennydd hefyd wedi darparu adroddiadau achlysurol ar faterion brys megis y gwarchae yn Ysbyty Llwyn Helyg, Hwlffordd a'r camgymeriad yn ystod llawdriniaeth yn Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llanelli.	Fel yr adroddwyd uchod, yr oedd yn bosibl i'r Pwyllgor drafod materion gweithredol brys megis y prinder cynyddol o welyau mewn ysbytai. Yr oedd hefyd yn bosibl iddo fonitro'r trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn barod i wynebu'r Mileniwm.

ATODIAD 2

PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Y FLAENRAGLEN WAITH DDRAFFT

Mai 2000 - Rhagfyr 2001

Dyletswydddau'r Pwyllgor

Un o chwe phwyllgor pwnc y Cynulliad yw'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc wedi eu pennu yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

"9.7. Bydd pob pwyllgor pwnc

(i) yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;

(ii) yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a

(iii) yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8. O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

(i) yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22;

(ii) yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;

(iii) yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cynion);

(iv) yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21; a

(v) yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bob pwyllgor pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf.

Am wybodaeth am aelodau'r Pwyllgor cliciwch yma.

Nodau ac Amcanion y Pwyllgor

Prif amcan blaen-raglen waith y pwyllgor yw integreiddio iechyd, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â'r prif faterion o ddelio ag anghydraddoldebau ym maes iechyd ac anfanteision afiechyd. Bydd y pwyllgor yn sicrhau ei fod, wrth adolygu a datblygu polisi, yn gwneud argymhellion fydd yn arwain at wasanaethau o safon uchel sy'n werth yr arian. Bydd hefyd am fodloni ei hun bod y gwasanaethau yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu yn briodol, yn enwedig yn achos pobl hawdd eu niweidio.

Y Cynlluniau Statudol

Bydd y pwyllgor hefyd yn cymryd i ystyriaeth gylluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y cysylltiadau â'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy.

Mae'r ethos hwn yn cydymffurfio ag egwyddorion "Gwell Cymru", cynllun strategol *[drafft]* Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Blaenoriaethau'r Pwyllgor

Ym Mhennod 6 o'r ddogfen "Gwell Cymru" *[drafft]* ceir nifer o faterion i'w gweithredu'n gyflym gan y Cynulliad. Bydd y Pwyllgor yn chwarae rhan bwysig o ran symud ymlaen â'r rhain.

- **Comisiynydd Plant i Gymru** Mae'r pwyllgor wedi cynnal ymgynghori'n helaeth ar gylch gwaith a rôl comisiynydd plant a bydd yn ystyried sut y dylid gweithredu'r cynigion hyn.
- **Rhaglenni Gwella Iechyd.** Bydd yn monitro sut y bydd y rhaglenni hyn yn datblygu ac yn cael eu gweithredu.
- **Amserau Aros mewn Ysbytai.** Bydd y pwyllgor yn ymwneud yn agos â llywio a monitro gwaith grwpiau tasg arbenigol ar amseroedd aros mewn ysbytai a'r pwysau ar yr NHS.
- **Trefniadau cyllido tecach i'r NHS.** Mae'r Pwyllgor wedi comisiynu adolygiad o fforwmla dyrannu adnoddau'r NHS. Bydd yn monitro'r adolygiad ac yn trafod ac yn gwneud argymhellion am y canfyddiadau.
- **Amddiffyn y rhai sydd mewn gofal yn well.** Bydd y pwyllgor yn rhoi cyngor ar sefydlu Comisiwn Safonau Gofal i Gymru a gynigir yn y Mesur Safonau Gofal a gweithredu'r Mesur Plant (Gadael Gofal)
- **Ffordd newydd o edrych ar ofal iechyd sylfaenol.** Bydd yn parhau i gynghori ar ddatblygu'r strategaeth gofal sylfaenol.

- **Agwedd newydd a arweinir gan y gymuned at iechyd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o safbwynt iechyd**. Bydd y pwyllgor yn monitro cynnydd y Grwpiau Iechyd Lleol, ac ar ôl penderfyniad yn y cyfarfod llawn, bydd yn trafod yr achos dros barthau gweithredu iechyd.

- **Strategaeth Gofalwyr i Gymru.** Bydd yn parhau i fonitro a rhoi cyngor ar ddatblygu Strategaeth Gofalwyr.

- **Rhaglen gyfalaf wedi'i hailwampio**. Mae'r Pwyllgor yn dymuno ymwneud â'r trafodaethau cyntaf ar y rhaglen gyfalaf.
-

BLAEN-RAGLEN WAITH DDRAFFT Mai 2000 - Gorffennaf 2000

10.5.00	Adroddiad misol Ysgrifennydd y Cynulliad	45	
	Adroddiad o'r Adolygiad o Wasanaethau Byr-dymor	90	
	Strategaeth Amseroedd Aros - adroddiad dros dro	35	
	Canllaw ar y Cyd-flaenoriaethau - canlyniad yr Ymgynghori	dim	Papur i'w nodi
	Cofnodion	5	
	Cyfanswm amser	**175**	
Dydd Iau **18 Mai**	Ymweliad â Chanolfan Delefeddygaeth BT	120	Sesiwn Ychwanegol
24.05.00	Gwybodaeth ddiweddar am Strategaeth Gorfforaethol/Strategaeth Gofal Sylfaenol	90	
	Parthau Gweithredu Iechyd	30	
	Arferion Rhagnodi - Adroddiad Dros Dro	45	
	Cofnodion	5	
	Cyfanswm amser	**170**	
14.06.00	Adroddiad misol Ysgrifennydd y Cynulliad	45	

	Gwasanaethau Canser	60	
	Cyllidebau 2001-2002 - Ystyriaeth Ddechreuol i'r Blaenoriaethau	65	
	Cofnodion	5	
	Cyfanswm amser	**175**	
Dydd Iau **22 Mehefin**	Gwybodaeth Anffurfiol	120	Sesiwn Ychwanegol
28 Mehefin	Archwilio Awdurdod Iechyd Dyfed Powys - Cyflwyniadau Cyntaf oddi wrth yr AI	90	
	Tasglu ar y Pwysau mewn Ysbytai	40	
	Adolygiad o'r Dyraniadau Adnoddau i Awdurdodau Iechyd - adroddiad dros dro	40	
	Cofnodion	5	
	Cyfanswm amser	**175**	
12 Gorffennaf	Addysg Feddygol i Gyn-raddedigion - Ysgol Feddyginiaeth Cymru, Campws Abertawe	90	
	Cyllidebau 2001-2002 - Ystyried y Blaenoriaethau yn Derfynol	60	
	Cofnodion	5	
	Cyfanswm amser	**155**	

Materion Eraill

Yn ystod y rhaglen, mae'r pwyllgor hefyd yn bwriadu

- adolygu perfformiad *[dau awdurdod iechyd a dwy ymddiriedolaeth NHS]* (Rheol Sefydlog 9.7(iii));
- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8 (ii));
- derbyn adroddiadau misol oddi wrth Ysgrifennydd y Cynulliad;
- monitro gwaith y tasglu ar arferion rhagnodi a rhoi gwybodaeth i'r Cynulliad am ganfyddiadau'r tasglu;
- rhoi gwybodaeth am y potensial ar gyfer datblygu telefeddygaeth
- ystyried y manteision i iechyd o roi fflworid mewn cyflenwadau dr.